## Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil: Polisi Canslo

Nid oes cost i fynychu cyrsiau sgiliau ymchwil y Coleg Cymraeg. Byddwn yn darparu llety a bwyd am ddim i bawb sy'n cofrestru (p'un a ydych yn ddeiliad Ysgoloriaeth Ymchwil y Coleg neu beidio), ac yn ad-dalu costau teithio o'ch sefydliad i leoliad y cwrs.

Oherwydd bod y Coleg yn ysgwyddo cost yr hyfforddiant yn llawn, gofynnwn i chi wneud pob ymdrech i fod yn bresennol ar y cyrsiau yr ydych wedi cofrestru arnynt.

Mae gofyn i'r Coleg gadarnhau'r niferoedd terfynol gyda'r llety, y lleoliad a'r hyfforddwyr mewn da bryd ymlaen llaw. Felly, er mwyn osgoi costau diangen i'r Coleg, rydym wedi mabwysiadu'r polisi canslo hwn.

1. Wrth gofrestru rydych yn ymrwymo i fynychu pob sesiwn ar bob diwrnod o'r cwrs, oni bai eich bod wedi nodi yn wahanol wrth gofrestru.

2. Dylid rhoi gwybod wrth gofrestru os oes posibilrwydd y bydd rhywbeth yn codi yn eich atal rhag mynychu.

3. Os na allwch fynychu, neu os ydych yn bwriadu mynychu rhai sesiynau yn unig, dylid anfon e-bost at m.james@colegcymraeg.ac.uk cyn gynted â phosib.

4. Pe baech yn canslo o fewn 14 diwrnod neu lai heb reswm dilys, neu os nad ydych yn dod i'r cwrs ar ôl cofrestru, byddwn yn cadw'r hawl i drosglwyddo'r gost i'ch sefydliad.